**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Jessica Morden AS

Cadeirydd y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol

Y Gwir Anrh. Arglwydd Hunt o Gilgwri MBE

Cadeirydd Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi

24 Mai 2023

Annwyl gyfaill

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) ("Bil CGI") Llywodraeth Cymru yn mynd drwy'r Senedd ar hyn o bryd. Mae wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1 (egwyddorion cyffredinol) a Chyfnod 2 (y pwyllgor yn ystyried gwelliannau).

Fel y gwyddoch efallai, mae Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod wedi cyflwyno Bil CGI mewn ymateb i'r diwygiadau a ragwelir i'r broses o gaffael gwasanaethau iechyd ar gyfer Lloegr. Mae'r diwygiadau hynny'n cynnwys y cynnig i gyflwyno Cyfundrefn Dethol Darparwyr (“PSR”) gan ddefnyddio'r pŵer gwneud rheoliadau a fewnosodwyd yn Neddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 gan adran 79 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 (“Deddf 2022”) a'r pŵer yng nghymal 119 o'r Bil Caffael (fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Bil Cyhoeddus) i un o Weinidogion y Goron ddatgymhwyso unrhyw ddarpariaeth yn y Bil Caffael pan fo darpariaeth a wneir mewn rheoliadau o dan Ddeddf GIG 2006 yn gymwys. Byddai Bil CGI, pe bai'n cael ei basio, yn rhoi pwerau gwneud rheoliadau cyfatebol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chaffael gwasanaethau iechyd yng Nghymru.

Wrth siarad am Fil CGI pan gafodd ei gyflwyno i'r Senedd, dywedodd y Gweinidog y canlynol:

> *“Bydd y darpariaethau yn y Bil a'r rheoliadau yn y dyfodol yn hwyluso'r hyblygrwydd hwnnw, gan ddarparu mecanwaith cefnogol sy'n ceisio cynnal y tegwch, o ran caffael presennol, yng ngwasanaethau iechyd y GIG rhwng Cymru a*


*Lloegr. Bydd hyn yn helpu i liniaru'r risg o effaith anffafriol ar GIG Cymru oherwydd gweithredu trefn gaffael wahanol gan y gwasanaeth iechyd yn Lloegr. Bydd yn cadw'r gallu i'r GIG yng Nghymru gomisiynu darparwyr gwasanaethau iechyd annibynnol ar sail cyd-gydymffurfio a chydweithredu, ac yn ei dro yn cefnogi ac optimeiddio adnoddau ariannol a staff, gan gefnogi'r GIG yng Nghymru i ddarparu'n effeithlon ac effeithiol”.*[1]

Drwy gydol gwaith craffu'r Senedd ar Fil CGI mae'r Gweinidog wedi dweud yn gyson y bydd y pwerau sydd ynddo yn cynnig y “cyfle a’r gallu i gysoni os bydd awydd [gan Lywodraeth Cymru] [g]wneud hynny”, [2] ond na fydd yn pennu manylion unrhyw gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaeth iechyd yng Nghymru nes ei bod wedi ystyried manylion terfynol PSR Llywodraeth y DU ar gyfer Lloegr.

Mae cymhlethdod y cyd-destun polisi a deddfwriaethol, a'r rhyngberthnasoedd a'r dibyniaethau rhwng diwygiadau caffael y gwasanaeth iechyd yng Nghymru a Lloegr, a'r diwygiadau caffael ehangach yn y sector cyhoeddus sy'n digwydd ar sail Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon fel y’u nodir yn y Bil Caffael, wedi bod yn thema gyson yn ystod ein gwaith craffu.

Bydd unrhyw reoliadau a gyflwynir gan Lywodraeth y DU o dan adran 79 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 a chymal 119 o’r Bil Caffael yn ddarostyngedig i’r weithdrefn graffu gadarnhaol yn Senedd y DU. Ar y sail hon, cytunwyd i ysgrifennu atoch i dynnu eich sylw at ein hadroddiad Cyfnod 1 ar egwyddorion cyffredinol y Bil, a gofyn, pan fyddwch yn craffu ar reoliadau o dan adran 79 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 a chymal 119 o’r Bil Caffael, eich bod yn ystyried unrhyw oblygiadau posibl i Gymru, gan gynnwys unrhyw faterion trawsffiniol.

Yn gywir



Russell George AS

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

---

[1] Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn [paragraff 236], 14 Chwefror 2023

[2] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cofnod y Trafodion [paragraff 10], 30 Mawrth 2023